Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 91 (Cy. 22)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adrannau 39 a 58(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ("Deddf 2004") ac maent yn diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").

Mae Rheoliadau 2014 yn gwneud darpariaeth mewn cysylltiad â chyfrifon ac archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru y mae'n ofynnol archwilio eu cyfrifon yn unol â Rhan 2 o Ddeddf 2004. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2014 mewn tri chyswllt.

Mae Rheoliadau 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff perthnasol mwy gyhoeddi hysbysiadau penodol mewn papurau newydd lleol. Mae'r Rheoliadau hyn yn dileu'r gofyniad hwnnw ac yn gosod gofyniad yn ei le i arddangos hysbysiad mewn o leiaf un lle amlwg yn ardal y corff.

Mae rheoliad 4 yn dileu'r gofyniad i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol gynnwys, yn eu datganiad o gyfrifon, y cyfrifon ar gyfer cronfeydd pensiwn a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013.

O dan Reoliadau 2014, mae'n ofynnol i gyrff llywodraeth leol baratoi eu datganiad o gyfrifon erbyn 30 Mehefin ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi a'i gyhoeddi erbyn 30 Medi ar ôl y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Mae rheoliadau 5 ac 8 yn newid yr amserlen i gyrff llywodraeth leol baratoi a chyhoeddi eu datganiad o gyfrifon fel a ganlyn.

Mewn perthynas â'r flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, mae'n ofynnol i awdurdodau tân ac achub, awdurdodau Parciau Cenedlaethol,

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

comisiynwyr heddlu a throseddu a phrif gwnstabliaid baratoi eu datganiad o gyfrifon erbyn 30 Mehefin 2019' a'i gyhoeddi erbyn 30 Medi 2019'. Mewn perthynas â blwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 neu ar ôl hynny, mae'n ofynnol i gyrff o'r fath baratoi eu datganiad o gyfrifon erbyn 31 Mai ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi a'i gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf ar ôl y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

Mewn perthynas â'r flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 mae'n ofynnol i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol a phwyllgorau i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (gan gynnwys cyd-bwyllgorau) baratoi eu datganiad o gyfrifon erbyn 30 Mehefin 2019 a'i gyhoeddi erbyn 30 Medi 2019. Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020, mae'n ofynnol i gyrff o'r fath baratoi eu datganiad o gyfrifon erbyn 15 Mehefin ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi a'i gyhoeddi erbyn 15 Medi ar ôl y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny, mae'n ofynnol i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol a phwyllgorau i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol (gan gynnwys cyd-bwyllgorau) baratoi eu datganiad o gyfrifon erbyn 31 Mai ar ôl y flwyddyn y mae'r datganiad yn berthnasol iddi a'i gyhoeddi erbyn 31 Gorffennaf ar ôl y flwyddyn y mae'n berthnasol iddi.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2018 Rhif 91 (Cy. 22)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *22 Ionawr 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *29 Ionawr 2018* |
| *Yn dod i rym* | *14 Mawrth 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 39 a 58(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 39(2) o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Archwilydd Cyffredinol Cymru, y cymdeithasau hynny o awdurdodau lleol yng Nghymru y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn ymwneud â hyn a'r cyrff hynny o gyfrifwyr y mae'n ymddangos iddynt eu bod yn briodol.

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mawrth 2018.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018 neu ar ôl hynny.

---

(**1**) 2004 p. 23; diwygiwyd adran 39 gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3), Atodlen 4, paragraffau 20 a 44. Diwygiwyd adran 58 gan y Ddeddf honno, Atodlen 4, paragraffau 20 a 58.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014**

**2.** Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014(**1**) wedi eu diwygio fel a nodir yn y rheoliadau a ganlyn.

**Dehongli**

**3.** Yn rheoliad 2(1) (dehongli), hepgorer y diffiniad o "hysbysiad drwy hysbyseb" ("*notice by advertisement*").

**Datganiad o gyfrifon**

**4.** Yn rheoliad 8(1)(c) (datganiad o gyfrifon) ar ôl "hwy" mewnosoder ", ac eithrio cyfrifon ar gyfer cronfeydd pensiwn a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013(**2**)".

**Llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiad o gyfrifon – cyrff perthnasol mwy**

**5.**—(1) Yn rheoliad 10 (llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiad o gyfrifon)—

(a) ym mharagraff (1), yn lle "30 Mehefin" rhodder "31 Mai";

(b) ym mharagraff (2), yn lle "30 Medi" rhodder "31 Gorffennaf".

(2) Ar ôl rheoliad 10 mewnosoder—

**"Addasiadau ar gyfer y flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018**

**10A.** Mewn perthynas â'r flwyddyn sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2018, mae rheoliad 10 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae paragraff (1) i'w ddarllen fel petai "30 Mehefin" wedi ei roi yn lle "31 Mai";

(b) mae paragraff (2) i'w ddarllen fel petai "30 Medi" wedi ei roi yn lle "31 Gorffennaf".

**Addasiadau ar gyfer cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ar gyfer y**

(**1**) O.S. 2014/3362 (Cy. 337).

(**2**) O.S. 2013/2356 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygiadau Amrywiol) 2014 (O.S. 2014/44), Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Rheoli Troseddwyr) (Diwygio) 2014 (O.S. 2014/1146), Gorchymyn Absenoldeb Rhiant a Rennir a Chyflog Rhiant Statudol a Rennir (Diwygiadau Canlyniadol i Is-ddeddfwriaeth) 2014 (O.S. 2014/3255), Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (Diwygio) 2015 (O.S. 2015/755), a Deddf Menter 2016 (p. 12), adran 42(2), Atodlen 6, paragraff 5 (o ddiwrnod sydd i'w bennu).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020**

**10B.**—(1) Mae'r addasiadau a nodir yn y rheoliad hwn yn cael effaith mewn perthynas â chyfrifon cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol.

(2) Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020 mae rheoliad 10 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae paragraff (1) i'w ddarllen fel petai "15 Mehefin" wedi ei roi yn lle "31 Mai";

(b) mae paragraff (2) i'w ddarllen fel petai "15 Medi" wedi ei roi yn lle "31 Gorffennaf"."

**Hysbysiad o hawliau cyhoeddus**

**6.** Yn rheoliad 12(1) (hysbysiad o hawliau cyhoeddus), yn lle "hysbysu drwy hysbyseb ac ar ei wefan am" rhodder "arddangos ar ei wefan ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ei ardal, hysbysiad sy'n cynnwys".

**Hysbysiad o orffen yr archwiliad**

**7.** Yn rheoliad 13 (hysbysiad o orffen yr archwiliad), yn lle "hysbysu drwy hysbyseb ac ar ei wefan" rhodder "arddangos ar ei wefan ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ei ardal, hysbysiad".

**Llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiadau cyfrifyddu – cyrff perthnasol llai**

**8.**—(1) Yn rheoliad 15(5)(b) (llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiadau cyfrifyddu), yn lle "lle neu leoedd amlwg" rhodder "o leiaf un lle amlwg".

(2) Ar ôl rheoliad 15 (llofnodi, cymeradwyo a chyhoeddi datganiadau cyfrifyddu) mewnosoder—

**"Addasiadau ar gyfer pwyllgorau cynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol**

**15A.**—(1) Mae'r addasiadau a nodir yn y rheoliad hwn yn cael effaith mewn perthynas â chyfrifon pwyllgor i gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol (gan gynnwys cyd-bwyllgor).

(2) Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2019 a 31 Mawrth 2020, mae rheoliad 15 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae paragraff (2) i'w ddarllen fel petai "15 Mehefin" wedi ei roi yn lle "30 Mehefin";

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

(b) mae paragraff (5) i'w ddarllen fel petai "15 Medi" wedi ei roi yn lle "30 Medi".

(3) Mewn perthynas â'r blynyddoedd sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 neu ar ôl hynny, mae rheoliad 15 yn gymwys gyda'r addasiadau a ganlyn—

(a) mae paragraff (2) i'w ddarllen fel petai "31 Mai" wedi ei roi yn lle "30 Mehefin";

(b) mae paragraff (5) i'w ddarllen fel petai "31 Gorffennaf" wedi ei roi yn lle "30 Medi"."

**Hysbysiad o hawliau cyhoeddus**

**9.** Yn rheoliad 17(1) (hysbysiad o hawliau cyhoeddus) yn lle "lle neu leoedd amlwg" rhodder "o leiaf un lle amlwg".

**Hysbysiad o orffen yr archwiliad**

**10.** Yn rheoliad 18 (hysbysiad o orffen yr archwiliad) yn lle "lle neu leoedd amlwg" rhodder "o leiaf un lle amlwg".

**Archwiliad eithriadol**

**11.** Yn rheoliad 28 (archwiliad eithriadol), yn lle paragraff (1) rhodder—

> "(1) Pan fydd Archwilydd Cyffredinol Cymru, o dan adran 37 o Ddeddf 2004(**1**), yn cynnal archwiliad eithriadol o gyfrifon corff perthnasol, rhaid i'r corff arddangos hysbysiad ar ei wefan ac mewn o leiaf un lle amlwg yn ardal y corff, ynghylch hawl unrhyw etholwr llywodraeth leol yn yr ardal y mae'r cyfrifon yn berthnasol iddi i wrthwynebu unrhyw un neu ragor o'r cyfrifon hynny."

*Alun Davies*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, un o Weinidogion Cymru
22 Ionawr 2018

---

(**1**) Diwygiwyd adran 37 gan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2013 (dccc 3), Atodlen 4, paragraffau 20 a 42.